# Ymateb y Llywodraeth i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Craffu technegol

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

1.1. Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi gwall yn nhrydydd paragraff y rhaglith yn nhestun Saesneg y Rheoliadau.

1.2. Dyroddwyd slip cywiro gan Argraffydd y Frenhines i gywiro'r testun ar 20 Ebrill 2020.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

2.1. Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn pam na ddibynnodd Gweinidogion Cymru ar y pŵer galluogi sydd wedi ei gynnwys yn adran 45C(4)(d) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i wneud y Rheoliadau. Codwyd cwestiwn tebyg ar gyfer y prif Reoliadau, a dylech gyfeirio at ymateb y Llywodraeth sy'n berthnasol yma.

2.2. Mae'r Llywodraeth o'r farn felly fod y Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau sy'n adlewyrchu cynnwys y Rheoliadau yn gywir.

## Craffu ar rinweddau

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

3.1. Mae Cynghorwyr Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi nifer o wahaniaethau rhwng y prif Reoliadau i Gymru a'r ddarpariaeth gyfatebol i Loegr, ac yn codi'r un pwynt ar gyfer y Rheoliadau diwygio. Rydym yn ailadrodd ein hymateb a wnaed ar y prif Reoliadau fod y Llywodraeth yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau ymateb cydgysylltiedig i'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r pwerau yn Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru fel y gall darpariaeth gael ei gwneud sy'n addas yn benodol i'r amgylchiadau yng Nghymru ac sy'n seiliedig ar benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi ei synnu unwaith eto gan y sylwadau a wnaed, sy'n awgrymu efallai y dylai'r Llywodraeth gyfiawnhau unrhyw wyro oddi wrth y gyfraith fel y mae o ran Lloegr.

**Llywodraeth Cymru**
**28 Ebrill 2020**